Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Adroddiad Ymgynghori

Rhodfa Tŷ Glas - Croesfan Sebra Ddyrchafedig

Rhif project: CO19047

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 23 Medi 2020 a 14 Hydref 2020, er y cafodd unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law yn fuan ar ôl y dyddiad cau ei chynnwys yn rhan o'r adroddiad hwn. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan fo modd.

O'r tua 50 o eiddo yr ymgynghorwyd â nhw, a'r hysbysiadau safle a roddwyd ar y safle, cafwyd 1 ymateb unigol, a cheir crynodeb ohono isod fel a ganlyn:

- 1 – Cefnogi'r cynnig ac wedi rhoi sylwadau ychwanegol.

Crynhoir y gofidiau a'r sylwadau isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor mewn italig.

Argymhelliad

O ystyried yr isod cynigir **bwrw ymlaen** gyda'r cynnig yn amodol ar y cyllid sydd ar gael, bydd y cynllun yn cyflwyno Croesfan Sebra Ddyrchafedig ar Rodfa Tŷ Glas a hefyd yn cyflwyno gwelliannau i lwybrau troed. Bydd hyn yn helpu i leihau cyflymderau cerbydau ar hyd y llwybr hwn a fydd yn gwella diogelwch ar y ffyrdd cyffredinol yn yr ardal ar gyfer holl ddefnyddwyr y ffordd.

Gweler isod y sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd o blaid y cynnig:

"Rwy'n cytuno bod angen croesfan yn y lleoliad hwn ac rwy'n cefnogi'r cynnig."

Gweler isod sylwadau ychwanegol yn ymwneud â'r cynnig a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori:

"Adleoli'r safle bws ar ochr ogleddol Rhodfa Tŷ Glas. Ydw i'n iawn i dybio bod y cynllun cyhoeddedig yn dangos y lleoliad newydd? Mae'n edrych fel petai ychydig yn nes at Ilex Close na'r safle bws presennol."

Mae'r cynllun cyhoeddedig yn dangos lleoliad terfynol arfaethedig y safle bws, er y gallai'r union leoliad newid yn ystod y cam dylunio manwl.

"Effaith dyluniad y Groesfan Sebra Ddyrchafedig gyda rhwystrau ymwthiol i wella gweledededd ar feicwyr . A roddwyd ystyriaeth i ddiogelwch beicwyr sy'n teithio ar hyd Rhodfa Tŷ Glas pan fydd lled y ffordd yn cael ei leihau i'r lleiafswm ar gyfer traffig dwyffordd?"

Mae Rhodfa Tŷ Glas yn rhan o lwybr beicio ar ein Map Rhwydwaith Integredig. Mae'r ffordd yn y lleoliad hwn yn llydan iawn ac felly mae cyflymder cerbydau yn uchel ar hyd y

llwybr. Bydd cyflwyno Croesfan Sebra Ddyrchafedig yn creu amgylchedd mwy diogel ar gyfer beicio ar y ffyrdd drwy leihau cyflymder cerbydau sy'n teithio i'r ddau gyfeiriad. Bydd y ffordd yn ddigon llydan ar gyfer llif traffig dwy ffordd yn unol â chroesfannau sebra eraill y Ddinas. Bydd ffordd lai llydan yn creu pellter byrrach i gerddwyr groesi'r lôn gerbydau gan felly gynyddu diogelwch cyffredinol ar y ffyrdd.